



**AROLWG 2013
O
ETHOLAETHAU
SENEDDOL
YNG NGHYMRU**

CYNIGION CYCHWYNNOL

Ionawr 2012

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

AROLWG 2013 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU

CYNIGION CYCHWYNNOL

CYNWYS		Para	Tud
Pennod 1	CYFLWYNIAD	1.1	1
Pennod 2	MEINI PRAWF AR GYFER AROLYGU ETHOLAETHAU SENEDDOL		
	Cymhwysu darpariaethau Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011	2.1	2
	Y Cylch Arolygu	2.2	2
	Lleihau nifer yr etholaethau	2.3	2
	Amrediad etholwyr statudol	2.4	2
	Ffactorau statudol eraill	2.7	3
	Ystyriaethau daearyddol arbennig	2.8	3
	Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol	2.9	3
	Ffiniau etholaethau presennol	2.13	4
	Cydadwaith yr ystyriaethau	2.14	4
	Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried		
	Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol	2.17	5
	Ffiniau llywodraeth leol newydd	2.18	5
	Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg	2.19	5
	Enwi a dynodi etholaethau	2.20	5
	Enwi	2.21	5
	Dynodi	2.24	6
Pennod 3	YR ETHOLAETHAU PRESENNOL		
	Nifer yr Etholwyr	3.1	7
	Maint Etholaethau	3.3	7
	Patrwm yr Etholaeth	3.4	7
	Ffigur 1 – Dwysedd y Boblogaeth		8
Pennod 4	CRYNODEB O'R CYNIGION		9
Pennod 5	ETHOLAETHAU SENEDDOL	5.1	10

		Para	Tud
CYNNWYS			
Pennod 6	MANYLION Y CYNIGION	6.1	11
	1. Menai ac Ynys Môn	6.2	11
	2. Gwynedd	6.7	12
	3. Ceredigion and North Pembrokeshire	6.14	15
	4. South and West Pembrokeshire	6.20	16
	5. Caerfyrddin	6.25	18
	6. Llanelli	6.29	19
	7. Gower and Swansea West	6.34	21
	8. Swansea East	6.39	22
	9. Neath	6.45	23
	10. Aberavon and Ogmore	6.52	25
	11. Bridgend	6.56	26
	12. The Vale of Glamorgan	6.61	27
	13. Cardiff West	6.65	28
	14. Cardiff Central and Penarth	6.70	29
	15. Cardiff East	6.75	30
	16. Caerphilly and Cardiff North	6.80	31
	17. Newport West and Sirhowy Valley	6.85	32
	18. Newport Central	6.92	34
	19. Monmouthshire	6.96	35
	20. Torfaen	6.101	36
	21. Blaenau Gwent	6.106	38
	22. Heads of the Valleys	6.110	39
	23. Rhondda	6.114	40
	24. Pontypridd	6.119	41
	25. South Powys	6.125	42
	26. Glyndwr and North Powys	6.129	44
	27. Wrexham Maelor	6.139	47
	28. Alyn and Deeside	6.143	48
	29. Dee Estuary	6.147	49
	30. North Wales Coast	6.151	50
Pennod 7	MANYLION CYHOEDDI		
	Cyhoeddi'r Cynigion Cychwynnol	7.1	52
	Mannau Archwilio	7.3	52
	Yr iaith Gymraeg	7.4	52
Pennod 8	Y CYFNOD YMGYNGHORI CYCHWYNNOL	8.1	53
	Gwrandawiadau Cyhoeddus	8.5	53
	Cyfnod Cynghori Eilaidd	8.15	55
	Golygu a Pholisi Preifatrwydd	8.18	55
Pennod 9	GWYBODAETH YCHWANEGOL		
	Hawlfraint y Goron	9.1	57
	Ymholiadau	9.2	57

ATODIAD 1	Etholaethau Arfaethedig yn ôl Nifer yr Etholwyr mewn Adrannau Etholiadol	58
ATODIAD 2	Mynegai'r Etholaethau Presennol	83
ATODIAD 3	Mannau Adneuo	84
ATODIAD 4	Dyddiad, Lleoliad a man Cyfarfod y Gwrandawiadau Cyhoeddus	87
ATODIAD 5a	Map o Gymru Gyfan yn dangos y'r Etholaethau Presennol	
ATODIAD 5b	Map o Gymru Gyfan yn dangos y'r Etholaethau Arfaethedig	
ATODIAD 6-35	Map o'r Etholaethau Arfaethedig	

Argraffwyd yr Argraffiad 1^{af} ym mis Ionawr 2012

Pennod 1 Cyflwyniad

- 1.1 Ar 4 Mawrth 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011. Ceir crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol ac ymagwedd gyffredinol y Comisiwn tuag at yr arolygon yn llyfryn gwybodaeth y Comisiwn, "*Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Llyfryn Gwybodaeth*" (2011), sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg gan y Comisiwn neu ar wefan y Comisiwn, sef www.comffin-cymru.gov.uk.
- 1.2 Erbyn hyn, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ei gynigion cychwynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cynigion hynny'n ystyried datblygiadau ers yr arolwg cyffredinol diwethaf yn ofalus, yn enwedig y newid sylfaenol i'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, caiff ei bwysleisio bod pob un o'r cynigion yn rhai dros dro. Felly, dylid ystyried unrhyw gyfeiriad at gynigion, argymhellion, penderfyniadau a chasgliadau yn y ddogfen hon yn unol â hynny. Yn fwyaf arwyddocaol, rhoddir pwys mawr i'r cyfle sydd ar gael yn awr i bawb dan sylw gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn, p'un a ydynt o blaid neu yn erbyn y cynigion.
- 1.3 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi cynigion cychwynol ar gyfer Cymru gyfan mewn un ddogfen. Tra'r oedd yn bosibl cyflwyno cynigion trwy gyfeirio at yr 8 sir wedi'u cadw yng Nghymru yn ystod arolygon blaenorol, nid yw hyn yn bosibl mwyach. Bu raid cynnal yr arolwg hwn ar sail Cymru gyfan.
- 1.4 Ceir manylion am bryd a sut i gyflwyno cynrychiolaethau yn nes ymlaen yn y ddogfen hon (gweler Pennod 8).

Pennod 2 Meini prawf ar gyfer arolygu etholaethau Seneddol

Cymhwyso darpariaethau Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011

2.1 Mae'r meini prawf a ddisgrifir yn y bennod hon yn berthnasol i'r arolwg o etholaethau seneddol.

Cylch arolygu

2.2 Dywed un o ofynion newydd y Ddeddf fod rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad cyfnodol ar arolwg cyffredinol o'r holl etholaethau yng Nghymru erbyn 1 Hydref 2013 ac erbyn 1 Hydref bob 5 mlynedd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Lleihau nifer yr etholaethau

2.3 Bydd cwota etholiadol y DU a'r lleihad yng nghyfanswm yr etholaethau yn y DU o 650 i 600 yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn lleihau o 40 i 30. Bydd hyn yn arwain at newid sylfaenol i'r patrwm etholaethau presennol ym mhob rhan o Gymru.

Amrediad etholwyr statudol

2.4 Mae'r Ddeddf yn pennu nifer o Reolau yn Atodlen 2 sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol yn fanwl.¹ Yr un fwyaf blaenllaw o'r rhain yw Rheol 2, sy'n amodi – ar wahân i bedwar eithriad penodol – bod rhaid i bob etholaeth gael cyfanswm o etholwyr (ar ddyddiad yr arolwg) nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n uwch na 105% o 'gwota etholiadol y DU'. Cwota etholiadol y DU ar gyfer Arolwg 2013, i'r cyfanrif agosaf, yw 76,641.²

2.5 Yn unol â hynny, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â chyfanswm o etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n llai na 72,810 ac nad yw'n uwch nag 80,473 (yr amrediad etholwyr statudol).

2.6 Yr unig etholaethau penodedig nad ydynt dan reolaeth gweithredu cwota etholiadol y DU yw'r ddwy etholaeth ar Ynys Wyth yn Lloegr, ac Ynysoedd Erch ac Ynysoedd Shetland a Na h-Eileanan â'n Iar yn yr Alban.

Ffactorau statudol eraill

¹ Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf i'w gweld yn llawn yn Atodiad C yn y Llyfryn Gwybodaeth.

² Yn ôl Rheol 2(3) yn Atodlen 2 i'r Ddeddf, cwota etholiadol y DU yw 45,678,175 (cyfanswm yr etholwyr yn y DU ar ddyddiad yr arolwg) wedi'i rannu â 596.

2.7 Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth bennu map newydd o'r etholaethau ar gyfer Arolwg 2013, yn benodol:

- ystyriaethau daearyddol arbennig gan gynnwys, yn benodol, maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
- ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 6 Mai 2010 (gweler y Llyfryn Gwybodaeth: Pennod 2 paragraff 2);
- ffiniau etholaethau presennol; ac
- unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.³

Ystyriaethau daearyddol arbennig

2.8 Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd ystyriaethau daearyddol arbennig a all effeithio ar y gallu i ffurfio etholaeth gyda chyfanswm etholwyr o fewn yr amrediad etholiadol statudol yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd, yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion yn ymwneud â diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ag agweddau posibl eraill ar ddaearyddiaeth anffisegol yn fwy tebygol o ddod i'r amlwg fel ystyriaethau wrth ystyried y ffactor 'cysylltiadau lleol' ar wahân.

Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

2.9 Gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol Awdurdodau Unedol a'u ffiniau adrannau etholiadol, cymunedol neu wardiau cymunedol mewnol.

2.10 Er i'r Comisiwn geisio ystyried ffiniau allanol Awdurdodau Unedol cyn belled ag y bo'n ymarferol, serch hynny, yn aml roedd rhaid croesi'r ffiniau hyn er mwyn ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.

2.11 Mae'r Comisiwn wedi defnyddio adrannau etholiadol yn sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau.

2.12 Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn wedi ceisio osgoi rhannu adrannau etholiadol rhwng etholaethau. Mae adrannau etholiadol yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac mae dealltwriaeth dda ohonynt ac, yn gyffredinol, maent yn arwydd o ardaloedd â chymuned fuddiant eang. Fodd bynnag, fe ystyriwyd yn briodol gwneud hynny mewn pedwar achos.

³ Mae ffactor pellach – 'yr anghyfleustra sydd ynghlwm wrth newidiadau tebyg' – wedi'i hepgor yn benodol ar gyfer Arolwg 2013, ond gellir ei ystyried ar gyfer arolygon dilynol.

Ffiniau etholaethau presennol

2.13 Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn wedi ceisio ystyried etholaethau presennol, cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y gellir ystyried bod unrhyw etholaeth bresennol wedi'i hamddiffyn rhag newid, hyd yn oed os yw nifer yr etholaeth o fewn yr amrediad statudol neu os gall diwygiad bychan ddod â hi o fewn yr amrediad statudol. Oherwydd lleihau nifer y seddi a'r gofynion mewn perthynas â nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth, gall fod yn angenrheidiol gwneud newidiadau i etholaeth debyg er mwyn cyflawni etholaethau ymarferol a chydymffurfiol ledled Cymru.

Cydadwaith yr ystyriaethau

2.14 Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol dan Reol 2. Ambell waith, mae lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 30 wedi ei gwneud yn arbennig o anodd i ni gyfleu'r ffactorau yn Rheol 5. Felly, er enghraifft, bu raid anwybyddu rhai gwahaniadau hanesyddol; hefyd, bu raid ffurfio rhai cysylltiadau llai amlwg o bryd i'w gilydd.

2.15 Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn geisio cyflawni cyfanswm etholwyr mewn etholaethau sydd 'mor agos â phosibl' at gwota etholiadol y DU. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ei hystyried yn briodol gosod amcanion polisi ar y cynllun statudol o geisio lleihau gwyro oddi wrth gwota etholiadol y DU. Byddai amcan tebyg yn tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir yn Rheol 5 yn unol â'r polisi ym mharagraff 2.13 uchod. Felly, i ddangos hynny, byddai'n well gan y Comisiwn bennu etholaeth ag amrywiant o 4% o gwota etholiadol y DU, er enghraifft, ond sy'n parchu cysylltiadau lleol, yn hytrach na dewis arall a fyddai'n creu etholaeth ag amrywiant o 1% yn unig, ond a fyddai'n rhannu cymunedau.

2.16 Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn am greu etholaethau:

- o adrannau etholiadol sy'n gyfagos at ei gilydd;
- o gymunedau cyfan; ac
- nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu teithio trwy etholaeth wahanol.

Ffactorau na wnaeth y Comisiwn eu hystyried

Effaith ar ganlyniadau etholiadol yn y dyfodol

2.17 Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Mae'n pwysleisio'n gryf iawn nad yw patrymau pleidleisio presennol a ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau.

Ffiniau llywodraeth leol newydd

2.18 Y ffiniau llywodraeth leol y gall y Comisiwn eu hystyried – fel y nodwyd uchod – yw'r rheiny a oedd yn bodoli ar 6 Mai 2010. O ganlyniad, nid yw'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau newydd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg

2.19 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail niferoedd yr etholwyr ar y cofrestr etholiadol ar 'ddyddiad yr arolwg'. Ni all ystyried newidiadau i faint etholaethau ar ôl 'dyddiad yr arolwg'. Hefyd, nid yw'n gallu ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru y gellir eu hawlio mewn ardal benodol.

Enwi a dynodi etholaethau

2.20 Wrth wneud ei gynigion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

Enwi

2.21 Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os yw'r etholaethau yn aros yn bur ddigyfnewid, y dylid cadw enw presennol yr etholaeth fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros newid.

2.22 Ar gyfer etholaeth newydd, fel arfer dylai'r enw adlewyrchu enw'r Awdurdod Unedol neu'r Awdurdodau Unedol sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn yr etholaeth. Fodd bynnag, os oes enw arall addas sy'n mynnu mwy o gefnogaeth leol yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn ystyried yr enw arall hwnnw. Gan mai ond un enw a ganiateir, ni fydd modd cael enw Cymraeg ac enw Saesneg arall ar gyfer etholaeth (neu fel arall). Gellir defnyddio un enw dwyieithog.

2.23 Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwmpawd pan nad oes enw mwy addas. Yn gyffredinol, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a

ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad mewn achosion lle mae enw etholaeth yn cyfeirio at ardal yr Awdurdod Unedol neu hen gyngor dosbarth, ond yn ffurfio ôl-ddodiad lle mae gweddill yr enw yn cyfeirio at ganolfan boblogaeth. Mae enghreifftiau o etholaethau presennol sy'n dangos yr egwyddor hon yn cynnwys 'Carmarthen West and South Pembrokeshire' a 'Swansea West'.

Dynodi

- 2.24 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai'n etholaeth seneddol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach y dylid fel arfer eu dynodi'n etholaethau sirol. Mewn achosion eraill dylid eu dynodi'n etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth, a'i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer 'borough constituency' a CC ar gyfer 'county constituency'.
- 2.25 Yn gyffredinol, mae'r dynodiad yn pennu pwy fydd yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau Seneddol. Mae'r dynodiad hefyd yn pennu'r terfyn ar y swm y caniateir i ymgeisydd ei wario yn ystod etholiad Seneddol yn yr etholaeth. Mae'r terfyn ychydig yn is mewn etholaethau bwrdeistrefol, er mwyn adlewyrchu'r costau is o gynnal ymgyrch mewn ardal drefol, gywasgedig fel arfer.

Pennod 3 Yr etholaethau presennol

Nifer yr etholwyr

- 3.1 Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Mae nifer yr etholwyr yn amrywio o 40,707 (Arfon CC) i 73,690 (Cardiff South and Penarth BC). Dan y ddeddfwriaeth newydd, caiff nifer yr etholaethau yng Nghymru ei lleihau o 40 i 30, ac mae'r amrediad etholwyr statudol rhwng 72,810 ac 80,473. Oherwydd hynny, un etholaeth bresennol yn unig, sef Cardiff South and Penarth BC, sydd o fewn yr amrediad statudol. Felly, bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i batrwm presennol yr etholaethau er mwyn bodloni'r amrediad statudol a nifer yr etholaethau.
- 3.2 Un o effeithiau gostwng nifer gyffredinol yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru, ynghyd â gofynion yr amrediad etholwyr statudol, yw y gall fod angen newid etholaeth bresennol y mae ei chyfanswm etholwyr o fewn yr amrediad statudol, o ganlyniad i'r angen i greu etholaethau ymarferol mewn ardaloedd eraill.


Maint Etholaethau

- 3.3 Mae maint (o ran arwynebedd) yr etholaethau presennol yn amrywio o 17km² (Cardiff Central BC) i 3,014km² (Brecon and Radnorshire CC). Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer etholaeth gan y ddeddfwriaeth newydd yw 13,000km². Byddai etholaeth o'r maint hwnnw yn gorchuddio tua 61% o Gymru. Nid oes yr un o'r etholaethau arfaethedig yn dod yn agos at y maint mwyaf.

Patrwm yr Etholaethau

- 3.4 O ystyried y nifer gymharol fach o etholwyr mewn rhannau gwledig o Gymru, mae'n anochel y bydd rhai etholaethau'n fawr iawn o ran eu harwynebedd, dan y trefniadau newydd. (Gweler Ffigur 1 ar dudalen 8). Yn ogystal, oherwydd niferoedd cyfyngedig yr etholwyr mewn rhai o gymoedd de Cymru, bydd rhaid i rai etholaethau gynnwys fwy nag un cwm. Yn yr un modd, efallai y bydd angen rhannu Awdurdodau Unedol mewn rhai ardaloedd trefol. Bydd angen cyfaddawdu er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n dilyn Rheolau'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'n bwysig deall y bydd hyd yn oed mân newidiadau i un etholaeth yn cael effaith ôl-ddilynol ar ardaloedd cyfagos ac yn ehangach, o bosibl.

Ffigwr 1: Dosbarthiad Poblogaeth Cymru



Pennod 4 Crynodeb o'r cynigion

- Mae'r ddeddfwriaeth newydd wedi lleihau nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru o 40 i 30.
- Ni fydd unrhyw etholaeth yn parhau heb ei newid dan y cynigion cychwynnol. Ar gyfer llawer o ardaloedd, mae'r newidiadau arfaethedig yn helaeth.
- Cwota etholiadol y DU yw 76,641 â goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (72,810 ac 80,743 yn ôl eu trefn). Ar hyn o bryd, mae 39 etholaeth yn is na nifer leiaf yr etholwyr ac mae un ohonynt (Cardiff South and Penarth BC) yn disgyn o fewn yr amrediad statudol. Dan y cynigion, byddai pob etholaeth o fewn yr amrediad statudol, gyda 19 ohonynt yn is na'r cwota etholiadol ac 11 ohonynt yn uwch na'r cwota etholiadol.
- Byddai 15 etholaeth bresennol wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd (Alyn and Deeside, Blaenau Gwent, Brecon and Radnorshire, Bridgend, Cardiff West, Ceredigion, Dwyfor Meirionnydd, Llanelli, Merthyr Tydfil and Rhymney, Neath, Rhondda, Torfaen, Vale of Glamorgan, Wrexham ac Ynys Môn).
- Dan y cynigion, byddai 6 Awdurdod Unedol wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd (Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen). Mae 7 Awdurdod Unedol yng Nghymru sy'n disgyn islaw'r amrediad etholiadol statudol, ac felly gellid eu cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd. Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen yw'r rhain.
- Byddai 6 etholaeth dros 1,000 km² (Caerfyrddin, Ceredigion and North Pembrokeshire, Glyndwr and North Powys, Gwynedd, South and West Pembrokeshire, a South Powys). Byddai 3 o'r etholaethau hyn rhwng 2,000 a 3,000 km² (Caerfyrddin, Ceredigion and North Pembrokeshire, a Glyndwr and North Powys), a 2 etholaeth dros 3,000 km² (Gwynedd a South Powys).
- Cadwyd 10 o'r enwau presennol.
- Byddai 877 o'r 881 o adrannau etholiadol yng Nghymru wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd. Ystyriwyd ei bod yn briodol gwahanu 4 adran etholiadol er mwyn cadw at Reolau 2 a 5 (byddai Llansamlet, Penycae and Ruabon South, Ponciau a Tremeirchion yn cael eu rhannu rhwng y cymunedau).

Pennod 5 Etholaethau seneddol

- 5.1 Manylir ar yr etholaethau newydd arfaethedig yn Atodiadau 6 i .35 ac maent i'w gweld ar fapiau amlinellol yn Atodiad 5. Mae mapiau manylach ar gael ar wefan y Comisiwn hefyd yn www.comffin-cymru.gov.uk (sylwch ar y rhybudd hawlfraint, ym mharagraff 9.1 isod, yn ymwneud â'r mapiau) ac maent wedi'u hadneuo mewn man penodol ym mhob etholaeth bresennol (gweler Atodiad 3 am fanylion ar gyfer pob etholaeth bresennol). Dylid defnyddio'r mapiau ar y cyd â'r wybodaeth ystadegol sy'n ymwneud â'r adrannau etholiadol yn y tabl yn Atodiad 1. Mae'r wybodaeth hon yn dangos nifer yr etholwyr ym mhob adran etholiadol yn 2011, y mae'n ofynnol i'r Comisiwn ei defnyddio ar gyfer yr arolwg hwn.
- 5.2 Pe byddai cynigion cychwynnol y Comisiwn yn cael eu mabwysiadu, byddent yn arwain at fap Seneddol o Gymru sy'n wahanol iawn i'r hyn yr ydym yn gyfarwydd ag ef. Mae'r Comisiwn wedi wynebu'r dasg o lunio cynigion ar gyfer y 30 etholaeth ofynnol yn lle'r 40 etholaeth bresennol. Wrth wneud hynny, fe'i cyfyngwyd ymhellach gan y gofyniad absoliwt bod rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth ddisgyn o fewn yr amrediad statudol. Oherwydd hynny, mae rhyddid y Comisiwn i roi ystyriaethau statudol eraill ar waith wedi'i gyfyngu, ar adegau. Yn yr un modd, wrth ystyried teilyngdod cynlluniau amgen, nid ystyriwyd atebion amlwg yn ymarferol, mewn rhai achosion, oherwydd na allent eu cynnwys o fewn y gofynion o ran maint yr etholaeth neu oherwydd eu heffaith ôl-ddilynol ar etholaethau eraill, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gydymffurfio â'r un gofynion. Fodd bynnag, ym mhob cam o'i ystyriaethau, mae'r Comisiwn wedi ceisio dod o hyd i'r atebion mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol ledled Cymru, y gellir eu bodloni o fewn y Rheolau statudol.
- 5.3 Hoffai'r Comisiwn bwysleisio bod y cynigion hyn yn cynnwys safbwyntiau cychwynnol y Comisiwn a'i fod yn croesawu barn a chynigion eraill gan y cyhoedd.

Pennod 6 Manylion y Cynigion

6.1 Disgrifir cynigion cychwynnol y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Mae'r penawdau'n cyfeirio at yr etholaethau arfaethedig. Disgrifir pob etholaeth bresennol sy'n cael ei heffeithio'n uniongyrchol gan gynnig mewn paragraff sy'n gosod yr adrannau etholiadol oddi mewn iddi, nifer yr etholwyr ym mhob adran a chanran yr amrywiant oddi wrth y cwota etholiadol a'r amrediad statudol isaf. Yna, mae paragraff yn dilyn am yr etholaeth arfaethedig, ei hamrywiant oddi wrth y cwota etholiadol a'r enw awgrymedig. Yn olaf, ceir esboniad o drefniant yr etholaeth ar ôl paragraff yr etholaeth arfaethedig.

1. Menai ac Ynys Môn

6.2 Ar hyn o bryd, mae **Aberconwy** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Bettws-y-Coed (985), Bryn (1,347), Caerhun (1,686), Capel Ulo (1,238), Conwy (3,386), Craig-y-Don (2,797), Crwst (1,623), Deganwy (3,344), Eglwysbach (1,206), Gogarth (3,001), Gower (908), Llansanffraid (1,831), Marl (3,069), Mostyn (2,809), Pandy (1,492), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,201), Penrhyn (3,911), Pensarn (2,096), Trefriw (1,035), Tudno (3,703) ac Uwch Conwy (1,294) ym Mwrdeistref Sirol Conwy, â chyfanswm o 44,962 o etholwyr, sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 38% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.3 Ar hyn o bryd, mae **Arfon** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Arllechwedd (993), Bethel (1,025), Bontnewydd (856), Cadnant (1,437), Cwm-y-Glo (723), Deiniol (569), Deiniolen (1,204), Dewi (1,229), Garth (702), Gerlan (1,592), Glyder (1,288), Y Groeslon (1,297), Hendre (904), Hirael (921), Llanberis (1,474), Llanllyfni (851), Llanrug (1,308), Llanwnda (1,469), Marchog (1,442), Menai (Bangor) (2,483), Menai (Caernarfon) (1,798), Ogwen (1,605), Peblig (Caernarfon) (1,445), Penisarwaun (1,287), Pentir (1,678), Penygroes (1,284), Seiont (2,158), Tal-y-sarn (1,294), Tregarth a Mynydd Llandygái (1,596), Waunfawr (1,223) ac Y Felinheli (1,572) yng Ngwynedd, â chyfanswm o 40,707 o etholwyr, sydd 47% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 44% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.4 Ar hyn o bryd, mae **Ynys Môn** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Aberffraw (1,079), Porth Amlwch (1,643), Amlwch Wledig (923), Biwmares (1,365), Bodffordd (1,180), Bodorgan (1,268), Braint (1,139), Bryngwran (1,290), Brynteg (1,513), Cadnant (825), Cefni (1,145), Cwm Cadnant (1,693), Cyngar (1,471), Gwyngyll (1,258), Tref Caergybi (651), Kingsland (972), Llanbadrig (992), Llanbedrgoch (1,148), Llanddyfnan (1,027), Llaneilian (1,739), Llanfaethlu (1,220), Llanfair-yn-Neubwll (1,717), Llanfihangel Ysgeifiog (1,470), Llangoed (990), Llanidan (1,337), Llannerch-y-Medd (1,376), London

Road (913), Maeshyfyrd (1,397), Mechell (1,150), Moelfre (778), Morawelon (917), Parc A'r Mynydd (902), Pentraeth (1,422), Porthyfelin (1,465), Rhosneigr (702), Rhosyr (1,645), Trearddur (1,712), Tudur (885), Tysilio (1,474) and Y Fali (1,731) yn Ynys Môn, â chyfanswm o 49,524 o etholwyr, sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 32% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.5 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Ynys Mon CC presennol; ac,
2. adrannau etholiadol Bryn (1,347) a Pandy (1,492) ym Mwrdeistref Sirol Conwy; ac,
3. adrannau etholiadol Arllechwedd (993), Bethel (1,025), Deiniol (569), Deiniolen (1,204), Dewi (1,229), Garth (702), Gerlan (1,592), Glyder (1,288), Hendre (904), Hirael (921), Marchog (1,442), Menai (Bangor) (2,483), Ogwen (1,605), Penisarwaun (1,287), Pentir (1,678), Tregarth a Mynydd Llandygái (1,596) ac Y Felinheli (1,572) yng Ngwynedd.

Byddai gan yr etholaeth hon 74,453 o etholwyr, sydd 2.9% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth hon yw **Menai ac Ynys Môn**.

6.6 Ni all Ynys Môn fodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â maint yr etholaeth ar ei phen ei hun. Felly, rhaid cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r tir mawr yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae gan Ddinas Bangor, sydd wedi'i chysylltu â'r ynys gan ddwy bont, gysylltiad naturiol ag Ynys Môn. Hefyd, yn ogystal â Dinas Bangor, bydd rhaid ychwanegu rhai adrannau etholiadol pellach yn yr ardaloedd cyfagos er mwyn dod â'r etholaeth o fewn yr amrediad gofynnol. Ystyriwyd sawl opsiwn, ond roeddem o'r farn mai Cymuned Llanfairfechan (sydd wedi'i ffurfio o ddwy adran etholiadol ym Mwrdeistref Sirol Conwy), ar yr ochr orllewinol i fynydd y Foel Lwyd, oedd y mwyaf priodol i'w chynnwys oherwydd y cysylltiadau agos ag ardal Bangor. Dewis arall fyddai cynnwys adrannau etholiadol i'r de o Fangor, ond ystyriwyd bod gan y rhain gysylltiadau cryfach ag ardal Caernarfon.

2. Gwynedd

6.7 Ar hyn o bryd, mae **Aberconwy** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Bettws-y-Coed (985), Bryn (1,347), Caerhun (1,686), Capel Ulo (1,238), Conwy (3,386), Craig-y-Don (2,797), Crwst (1,623), Deganwy (3,344), Eglwysbach (1,206), Gogarth (3,001), Gower (908), Llansanffraid (1,831), Marl (3,069), Mostyn (2,809), Pandy (1,492), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,201), Penrhyn (3,911), Pensarn (2,096), Trefriw (1,035), Tudno (3,703) ac Uwch Conwy (1,294) ym Mwrdeistref Sirol Conwy, â chyfanswm o 44,962 o etholwyr, sydd

41% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 38% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

- 6.8 Ar hyn o bryd, mae **Arfon** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Arllechwedd (993), Bethel (1,025), Bontnewydd (856), Cadnant (1,437), Cwm-y-Glo (723), Deiniol (569), Deiniolen (1,204), Dewi (1,229), Garth (702), Gerlan (1,592), Glyder (1,288), Y Groeslon (1,297), Hendre (904), Hirael (921), Llanberis (1,474), Llanllyfni (851), Llanrug (1,308), Llanwnda (1,469), Marchog (1,442), Menai (Bangor) (2,483), Menai (Caernarfon) (1,798), Ogwen (1,605), Peblig (Caernarfon) (1,445), Penisarwaun (1,287), Pentir (1,678), Penygroes (1,284), Seiont (2,158), Tal-y-sarn (1,294), Tregarth a Mynydd Llandygái (1,596), Waunfawr (1,223) ac Y Felinheli (1,572) yng Ngwynedd, â chyfanswm o 40,707 o etholwyr, sydd 47% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 44% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.
- 6.9 Ar hyn o bryd, mae **Dwyfor Meirionnydd** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Aberdaron (737), Aberdyfi (1,007), Abererch (1,013), Abermaw (1,664), Abersoch (548), Bala (1,378), Botwnnog (704), Bowydd a Rhiw (1,246), Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd (1,101), Bryn-crug/Llanfihangel (765), Clynnog (739), Coris/Mawddwy (951), Criccieth (1,371), Diffwys a Maenofferen (768), Dolbenmaen (932), Gogledd Dolgellau (912), De Dolgellau (1,089), Dyffryn Ardudwy (1,205), Efail-newydd/Buan (1,022), Harlech (1,488), Llanaelhaearn (1,184), Llanbedr (803), Llanbedrog (786), Llandderfel (1,147), Llanengan (824), Llangelynin (1,591), Llanuwchllyn (717), Llanystumdwy (1,503), Morfa Nefyn (929), Nefyn (970), Penrhyndeudraeth (1,807), Dwyrain Porthmadog (1,135), Gorllewin Porthmadog (1,372), Porthmadog-Tremadog (940), Gogledd Pwllheli (1,459), De Pwllheli (1,308), Teigl (1,379), Trawsfynydd (1,123), Tudweiliog (680) a Tywyn (2,499) yng Ngwynedd, â chyfanswm o 44,796 o etholwyr, sydd 42% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 38% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.
- 6.10 Ar hyn o bryd, mae **Montgomeryshire** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Banwy (795), Aberriw (1,103), Blaen Hafren (1,880), Caersws (1,835), Yr Ystog (1,260), Dolforwyn (1,590), Ffordun (1,107), Glantwymyn (1,624), Cegidfa (1,833), Ceri (1,610), Llanbrynmair (761), Llandinam (1,120), Llandrinio (1,687), Llandysilio (1,387), Llanfair Caereinion (1,354), Llanfihangel (891), Llanfyllin (1,187), Llanidloes (2,222), Llanwddyn (834), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,758), Llansanffraid (1,526), Machynlleth (1,654), Meifod (1,064), Trefaldwyn (1,078), Canol y Drenewydd (2,177), Dwyrain y Drenewydd (1,449), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaiarn (1,742), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaiarn (1,361), De y Drenewydd (1,261), Rhiwcynon (1,708), Trewern (1,069), Castell y Trallwng (1,029), Y

Trallwng Gungrog (1,954) ac Y Trallwng Llanerch Hudol (1,653) yn Sir Powys, â chyfanswm o 48,563 o etholwyr, sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 33% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.11 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Dwyfor Meirionnydd CC presennol;
2. adrannau etholiadol Bettws-y-Coed (985), Crwst (1,623), Gower (908), Trefriw (1,035) ac Uwch Conwy (1,294) ym Mwrdeistref Sirol Conwy;
3. adrannau etholiadol Bontnewydd (856), Cadnant (1,437), Cwm-y-Glo (723), Y Groeslon (1,297), Llanberis (1,474), Llanllyfni (851), Llanrug (1,308), Llanwnda (1,469), Menai (Caernarfon) (1,798), Peblig (Caernarfon) (1,445), Penygroes (1,284), Seiont (2,158), Tal-y-sarn (1,294) ac Waunfawr (1,223) yng Ngwynedd; ac,
4. adrannau etholiadol Glantwymyn (1,624), Llanbrynmair (761) a Machynlleth (1,654) yn Sir Powys.

Byddai gan yr etholaeth hon 73,297 o etholwyr, sydd 4.4% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth hon yw **Gwynedd**.

6.12 Wrth ystyried yr etholaeth yn uniongyrchol i'r de o Menai ac Ynys Môn CC arfaethedig, ymddengys yn fwyaf priodol i weddill yr adran etholiadol yn etholaeth Arfon gynt ac etholaeth Dwyfor Meirionnydd uno i greu etholaeth, oherwydd bod pob un o'r ardaloedd hyn yn rhan o'r un Awdurdod Unedol, sef Gwynedd. Yn anffodus, hyd yn oed pe cyfunir y ddwy ardal hon, ni fyddent yn cynnwys digon o etholwyr i ffurfio etholaeth sydd o fewn yr amrediad statudol. Felly, edrychom ar ardaloedd cyfagos y gellid eu cynnwys yn briodol yn yr etholaeth hon.

6.13 Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynnwys tair adran etholiadol Glantwymyn, Llanbrynmair a Machynlleth yn Sir Powys yn yr etholaeth arfaethedig. Mae'r A470 yn darparu cysylltiad rhwng y gogledd a'r de wrth groesi'r etholaeth. I'r gogledd, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'n briodol ychwanegu adrannau etholiadol o dde etholaeth bresennol Aberconwy, sy'n debyg i'r adrannau etholiadol eraill yn yr etholaeth arfaethedig o ran eu cysylltiadau cymdeithasol a'u topograffeg. Felly, cynigir cynnwys y 5 adran etholiadol fwyaf deheuol yn etholaeth bresennol Aberconwy (Betws-y-Coed, Crwst, Gower, Trefriw ac Uwch Conwy) yn yr etholaeth. Yn ystod y broses, roedd y Comisiwn yn dra ymwybodol o faint yr etholaeth, sef 3,160km². Er nad yw'n agos at y terfyn o 13,000km² yn y ddeddfwriaeth, bydd yn fwy nag unrhyw etholaeth bresennol yng Nghymru o hyd.

3. Ceredigion and North Pembrokeshire

- 6.14 Ar hyn o bryd, mae **Carmarthen East and Dinefwr** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Abergwili (1,822), Rhydaman (1,907), Betws (1,616), Cenarth (1,705), Cilycwm (1,155), Cynwyl Gaeo (1,306), Garnant (1,535), Glanaman (1,785), Gorslas (3,160), Llanddarog (1,565), Llandeilo (2,262), Llanymddyfri (2,082), Llandybie (3,017), Llanegwad (1,949), Llanfihangel Aberbythych (1,435), Llanfihangel-ar-Arth (2,155), Llangadog (1,547), Llangeler (2,612), Llangynnwr (1,895), Llangyndeyrn (2,401), Llanybydder (1,932), Manordeilo a Salem (1,765), Penygroes (2,134), Pontaman (DET)(2,123), Cwarter Bach (2,156), Llanismel (2,168) a Saron (3,096) yn Sir Gaerfyrddin, â chyfanswm o 54,285 o etholwyr, sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 25% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.
- 6.15 Ar hyn o bryd, mae **Ceredigion** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Aberaeron (1,117), Aberporth (1,808), Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,367), Aberteifi/Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (854), Aberteifi/Cardigan-Teifi (674), Aberystwyth Bronglais (1,700), Aberystwyth Canol/Central (1,161), Aberystwyth Gogledd/North (1,986), Aberystwyth Penparcau (2,219), Aberystwyth Rheidol (1,623), Beulah (1,298), Y Borth (1,542), Capel Dewi (1,041), Ceulan-a-Maesmor (1,439), Ciliau Aeron (1,484), Faenor (2,116), Llanbedr Pont Steffan (2,117), Llanarth (1,154), Llanbadarn Fawr-Padarn (783), Llanbadarn Fawr-Sulien (1,720), Llandyfriog (1,373), Llandysiliogogo (1,482), Tref Llandysul (1,051), Llanfarian (1,112), Llanfihangel Ystrad (1,533), Llangeitho (1,137), Llanygybi (1,134), Llanrhystyd (1,192), Llansanffraed (1,874), Llanwenog (1,329), Lledrod (1,669), Melindwr (1,500), Ceinewydd (836), Penbryn (1,677), Pen-parc (1,841), Tirymynach (1,368), Trefeurig (1,297), Tregaron (908), Troed-yr-aur (1,001) ac Ystwyth (1,489) yn Sir Ceredigion, â chyfanswm o 56,006 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 23% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.
- 6.16 Ar hyn o bryd, mae **Preseli Pembrokeshire** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Burton (1,448), Camrose (2,081), Cilgerran (1,577), Clydau (1,170), Crymych (1,936), Dinas Cross (1,322), Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1,481), Gogledd Orllewin Abergwaun (1,206), Wdig (1,512), Hwlfordd: Y Castell (1,620), Hwlfordd: Garth (1,737), Hwlfordd: Portfield (1,723), Hwlfordd: Prendergast (1,315), Hwlfordd: Priordy (1,935), Johnston (1,911), Treletert (1,741), Llangwm (1,746), Llanrhian (1,228), Maenclochog (2,408), Merlin's Bridge (1,611), Milford: Canol (1,499), Milford: Ddwyrain (1,501), Milford: Hakin (1,813), Milford: Hubberston (1,804), Milford: Gogledd (1,979), Milford: Gorllewin (1,622), Trefdraeth (942), Neyland: Ddwyrain (1,801), Neyland: Gorllewin (1,643), Rudbaxton (1,359), St. David's (1,503), Llandudoch (1,755), St. Ishmael's (1,127), Scleddau (1,153), Solfach (1,155),

The Havens (1,143) ac Wiston (1,459) yn Sir Benfro, â chyfanswm o 57,966 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.17 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Ceredigion CC presennol;
2. adran etholiadol Cenarth (1,705) yn Sir Gaerfyrddin; ac,
3. adrannau etholiadol Cilgerran (1,577), Clydau (1,170), Crymych (1,936), Dinas Cross (1,322), Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1,481), Gogledd Orllewin Abergwaun (1,206), Wdig (1,512), Maenclochog (2,408), Trefdraeth (942), Sceddau (1,153) a St. Dogmaels (1,755) yn Sir Benfro.

Byddai gan yr etholaeth hon 74,173 o etholwyr, sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth hon yw **Ceredigion and North Pembrokeshire**.

6.18 Byddai angen nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol ar etholaeth bresennol Ceredigion er mwyn ffurfio etholaeth sydd o fewn yr amrediad statudol. Ystyriodd y Comisiwn sawl opsiwn a phenderfynu ei bod yn fwyaf priodol i'r etholaeth barhau ar hyd yr arfordir a'r A487 i Awdurdod Unedol Sir Benfro i gynnwys rhannau o etholaeth bresennol Preseli Pembrokeshire. Mae'r etholaeth newydd arfaethedig yn ymestyn ar hyd yr arfordir i Abergwaun a'r adrannau etholiadol cyfagos ac i mewn i'r tir mor bell â Llandysilio a'r adrannau etholiadol cyfagos.

6.19 Lle bynnag y bo modd, mae'r Comisiwn wedi ceisio osgoi croesi ffiniau Awdurdodau Unedol neu ffiniau etholiadol presennol cymaint â phosibl. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, er mwyn disgyn o fewn yr amrediad etholwyr statudol a helpu i greu etholaethau addas yn yr ardaloedd cyfagos, mae'r Comisiwn wedi penderfynu cynnwys adran etholiadol Cenarth yn etholaeth newydd arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire. Mae'r adran etholiadol hon yn cynnwys Castellnewydd Emlyn, sydd â chysylltiadau agos iawn ag anheddiad Adpar yn adran etholiadol gyfagos Llandyfriog.

4. South and West Pembrokeshire

6.20 Ar hyn o bryd, mae **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC yn cynnwys adrannau etholiadol:

1. Tref Caerfyrddin Gogledd (3,800), Tref Caerfyrddin De (2,791), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,681), Cynwyl Elfed (2,471), Maestref Talacharn (2,236), Llanboidy (1,606), Llansteffan (1,676), Sanclêr (2,312), Trelech (1,700), a Hendy-gwyn-ar Daf (1,696) yn Sir Gaerfyrddin; ac

2. Amroth (995), Caerew (1,193), East Williamston (1,888), Hundleton (1,464), Cilgeti/Begeli (1,748), Llanbedr Felfre (1,292), Lamphey (1,350), Manorbier (1,608), Martletwy (1,104), Arberth (1,546), Arberth Wledig (1,237), Doc Penfro: Canol (1,087), Doc Penfro: Llanion (2,039), Doc Penfro: Market (1,263), Doc Penfro: Pennar (2,387), Penfro: Monkton (1,076), Penfro: Gogledd St. Mary (1,410), Penfro: De St. Mary (1,034), Penfro: St. Michael (1,999), Penalun (1,289), Saundersfoot (2,065), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,659), a Dinbych-y-Pysgod: De (1,802) yn Sir Benfro.

Mae gan yr etholaeth gyfanswm o 58,504 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.21 Ar hyn o bryd, mae **Preseli Pembrokeshire** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Burton (1,448), Camrose (2,081), Cilgerran (1,577), Clydau (1,170), Crymych (1,936), Dinas Cross (1,322), Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1,481), Gogledd Orllewin Abergwaun (1,206), Wdig (1,512), Hwlfordd: Y Castell (1,620), Hwlfordd: Garth (1,737), Hwlfordd: Portfield (1,723), Hwlfordd: Prendergast (1,315), Hwlfordd: Priordy (1,935), Johnston (1,911), Treletert (1,741), Llangwm (1,746), Llanrhian (1,228), Maenclochog (2,408), Merlin's Bridge (1,611), Milford: Canol (1,499), Milford: Dwyrain (1,501), Milford: Hakin (1,813), Milford: Hubberston (1,804), Milford: Gogledd (1,979), Milford: Gorllewin (1,622), Trefdraeth (942), Neyland: Dwyrain (1,801), Neyland: Gorllewin (1,643), Rudbaxton (1,359), St. David's (1,503), Llandudoch (1,755), St. Ishmael's (1,127), Scleddau (1,153), Solfach (1,155), The Havens (1,143) ac Wiston (1,459) yn Sir Benfro, â chyfanswm o 57,966 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.22 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys adrannau etholiadol Amroth (995), Burton (1,448), Camrose (2,081), Caerew (1,193), East Williamston (1,888), Hwlfordd: Y Castell (1,620), Hwlfordd: Garth (1,737), Hwlfordd: Portfield (1,723), Hwlfordd: Prendergast (1,315), Hwlfordd: Priordy (1,935), Hundleton (1,464), Johnston (1,911), Cilgeti/Begeli (1,748), Llanbedr Felfre (1,292), Lamphey (1,350), Treletert (1,741), Llangwm (1,746), Llanrhian (1,228), Manorbier (1,608), Martletwy (1,104), Merlin's Bridge (1,611), Milford: Canol (1,499), Milford: Dwyrain (1,501), Milford: Hakin (1,813), Milford: Hubberston (1,804), Milford: Gogledd (1,979), Milford: Gorllewin (1,622), Arberth (1,546), Arberth Wledig (1,237), Neyland: Dwyrain (1,801), Neyland: Gorllewin (1,643), Doc Penfro: Canol (1,087), Doc Penfro: Llanion (2,039), Doc Penfro: Market (1,263), Doc Penfro: Pennar (2,387), Penfro: Monkton (1,076), Penfro: Gogledd St. Mary (1,410), Penfro: De St. Mary (1,034), Penfro: St. Michael (1,999), Penalun (1,289), Rudbaxton (1,359), Saundersfoot (2,065), Solfach

(1,155), St. David's (1,503), St. Ishmael's (1,127), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,659), Dinbych-y-Pysgod: De (1,802), The Havens (1,143) ac Wiston (1,459) yn Sir Benfro. Bydd gan yr etholaeth hon 76,039 o etholwyr, sydd 0.8% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth hon yw **South and West Pembrokeshire**.

- 6.23 Mae'r Comisiwn o'r farn y gellir cyfuno'r adrannau etholiadol yn etholaeth bresennol Preseli Pembrokeshire nad ydynt wedi'u cynnwys yn etholaeth newydd arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire yn briodol â'r adrannau etholiadol eraill yn Sir Benfro.
- 6.24 Er y byddai'r cynnig hwn yn rhannu dwy o etholaethau presennol Sir Benfro, sef Preseli Pembrokeshire a Carmarthen West and South Pembrokeshire, mae iddo'r fantais o greu dwy etholaeth newydd sy'n cynnwys ardaloedd o fewn ardaloedd Awdurdodau Unedol yn unig: Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (gweler 6.27 isod).

5. Caerfyrddin

- 6.25 Ar hyn o bryd, mae **Carmarthen East and Dinefwr** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Abergwili (1,822), Rhydaman (1,907), Betws (1,616), Cenarth (1,705), Cilycwm (1,155), Cynwyl Gaeo (1,306), Garnant (1,535), Glanaman (1,785), Gorslas (3,160), Llanddarog (1,565), Llandeilo (2,262), Llanymddyfri (2,082), Llandybie (3,017), Llanegwad (1,949), Llanfihangel Aberbythych (1,435), Llanfihangel-ar-Arth (2,155), Llangadog (1,547), Llangeler (2,612), Llangynnwr (1,895), Llangyndeyrn (2,401), Llanybydder (1,932), Manordeilo a Salem (1,765), Penygroes (2,134), Pontaman (DET)(2,123), Cwarter Bach (2,156), Llanismel (2,168) a Saron (3,096) yn Sir Gaerfyrddin, â chyfanswm o 54,285 o etholwyr, sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 25% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.
- 6.26 Ar hyn o bryd, mae **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC yn cynnwys adrannau etholiadol:
1. Tref Caerfyrddin Gogledd (3,800), Tref Caerfyrddin De (2,791), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,681), Cynwyl Elfed (2,471), Maestref Talacharn (2,236), Llanboidy (1,606), Llansteffan (1,676), Sanclêr (2,312), Trelech (1,700), a Hendy-gwyn-ar Daf (1,696) yn Sir Gaerfyrddin; ac
 2. Amroth (995), Caerew (1,193), East Williamston (1,888), Hundleton (1,464), Cilgeti/Begeli (1,748), Llanbedr Felfre (1,292), Lamphey (1,350), Manorbier (1,608), Martletwy (1,104), Arberth (1,546), Arberth Wledig (1,237), Doc Penfro: Canol (1,087), Doc Penfro: Llanion (2,039), Doc Penfro: Market (1,263), Doc Penfro: Pennar (2,387), Penfro: Monkton (1,076), Penfro: Gogledd St. Mary (1,410), Penfro: De St. Mary (1,034),

Penfro: St. Michael (1,999), Penalun (1,289), Saundersfoot (2,065), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,659), a Dinbych-y-Pysgod: De (1,802) yn Sir Benfro.

Mae gan yr etholaeth gyfanswm o 58,504 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.27 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys adrannau etholiadol Abergwili (1,822), Rhydaman (1,907), Betws (1,616), Tref Caerfyrddin Gogledd (3,800), Tref Caerfyrddin De (2,791), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,681), Cilycwm (1,155), Cynwyl Elfed (2,471), Cynwyl Gaeo (1,306), Garnant (1,535), Glanaman (1,785), Gorslas (3,160), Maestref Talacharn (2,236), Llanboidy (1,606), Llanddarog (1,565), Llandeilo (2,262), Llanymddyfri (2,082), Llandybie (3,017), Llanegwad (1,949), Llanfihangel Aberbythych (1,435), Llanfihangel-ar-Arth (2,155), Llangadog (1,547), Llangeler (2,612), Llangynnwr (1,895), Llangyndeyrn (2,401), Llansteffan (1,676), Llanybydder (1,932), Manordeilo a Salem (1,765), Penygroes (2,134), Pontaman (DET)(2,123), Cwarter Bach (2,156), Sanclêr (2,312), Llanismel (2,168), Saron (3,096) Trelech (1,700), a Hendy-gwyn-ar Daf (1,696) yn Sir Gaerfyrddin. Byddai gan yr etholaeth hon 76,549 o etholwyr, sydd 0.1% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth hon yw **Caerfyrddin**.

6.28 Gellir cyfuno adrannau etholiadol presennol Carmarthen West and South Pembrokeshire constituency, nad ydynt wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire, yn briodol ag etholaeth bresennol Carmarthen East and Dinefwr, sy'n uniongyrchol gyfagos atynt. Caiff hwn ei ystyried yn gydweddiad da, gan y byddai'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys adrannau etholiadol yn Sir Gaerfyrddin yn unig, a byddai ganddi nifer briodol o etholwyr i greu etholaeth newydd sydd o fewn yr amrediad statudol.

6. Llanelli

6.29 Ar hyn o bryd, mae **Gower** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Llandeilo Ferwallt (2,758), Clydach (5,850), Fairwood (2,319), Gorseinon (3,199), Gŵyr (3,039), Tre-gŵyr (4,063), Pontybrenin (3,275), Llangyfelach (3,865), Llwchwr Isaf (1,821), Mawr (1,485), Newton (2,831), Ystumllwynarth (3,407), Penclawdd (3,024), Penlle'r-gaer (2,248), Pennard (2,247), Penyrheol (4,435), Pontarddulais (4,776), Llwchwr Uchaf (2,194) ac West Cross (5,312) yn Ninas a Sir Abertawe, â chyfanswm o 62,148 o etholwyr, sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 15% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.30 Ar hyn o bryd, mae **Llanelli** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Bigyn (4,672), Porth Tywyn (3,302), Y Bynie (2,810), Dafen (2,508), Elli (2,283), Felinfoel (1,391), Glanymor (3,723), Glyn (1,635), Yr Hendy (2,442), Hengoed (2,858), Cidweli (2,584), Llangennech (3,706), Llannon (3,877), Lliedi (3,798), Llwynhendy (3,095), Pembre (3,254), Pontyberem (2,127), Swiss Valley (2,089), Trimsaran (1,931), Tycroes (1,833) a Tyisha (2,529) yn Sir Gaerfyrddin, â chyfanswm o 58,447 o etholwyr, sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth ac 20% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.31 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Llanelli CC presennol, ac
2. adrannau etholiadol Gorseinon (3,199), Llangyfelach (3,865), Penlle'r-gaer (2,248), Penyrheol (4,435) a Pontarddulais (4,776) yn Ninas a Sir Abertawe.

Byddai gan yr etholaeth hon 76,970 o etholwyr, sydd 0.4% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth hon yw **Llanelli**.

6.32 Nid oes digon o etholwyr yn etholaeth bresennol Llanelli i ffurfio etholaeth dan y rheolau newydd. Gan fod yr adrannau etholiadol eraill yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin, bydd angen croeso ffin yr Awdurdod Unedol ag Abertawe. Y man mwyaf priodol i wneud hynny yw lle mae'r A48 yn cysylltu'r ddau awdurdod ym Mhontarddulais. Felly, mae adran etholiadol Pontarddulais a'r adrannau etholiadol yn uniongyrchol i'r de ohoni (sef Gorseinon, Llangyfelach, Penlle'r-gaer a Phenyrrheol) wedi'u cynnwys i greu etholaeth sydd o fewn yr amrediad statudol. Mae pob un o'r adrannau etholiadol hyn yn rhan o etholaeth Gower ar hyn o bryd.

6.33 Mae'r Comisiwn yn cydnabod y bu gwahaniad hanesyddol rhwng Llanelli ac Abertawe. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynnig hwn yn fwy dymunol na'r cynlluniau amgen.

7. Gower and Swansea West

6.34 Ar hyn o bryd, mae **Gower** CC yn cynnwys adrannau etholiadol Llandeilo Ferwallt (2,758), Clydach (5,850), Fairwood (2,319), Gorseinon (3,199), Gŵyr (3,039), Tre-gŵyr (4,063), Pontybrenin (3,275), Llangyfelach (3,865), Llchwyr Isaf (1,821), Mawr (1,485), Newton (2,831), Ystumllwynarth (3,407), Penclawdd (3,024), Penlle'r-gaer (2,248), Pennard (2,247), Penyrheol (4,435), Pontarddulais (4,776), Llchwyr Uchaf (2,194) ac West Cross (5,312) yn Ninas a Sir Abertawe, â chyfanswm o 62,148 o etholwyr, sydd 19% yn is na chwota

etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 15% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

6.35 Ar hyn o bryd, mae **Swansea West** BC yn cynnwys adrannau etholiadol Y Castell (10,554), Cocyd (10,435), Dunfant (3,607), Gogledd Cilâ (3,317), De Cilâ (1,963), Maylas (2,199), Sgeti (11,976), Townhill (6,083) ac Uplands (12,018) yn Ninas a Sir Abertawe, â chyfanswm o 62,152 o etholwyr, sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 76,641 o etholwyr fesul etholaeth a 15% yn is na nifer leiaf yr amrediad etholwyr statudol, sef 72,810 o etholwyr fesul etholaeth.

